PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
IBERS ABERYSTWYTH
Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences

GRASSLAND DEVELOPMENT CENTRE
CANOLFAN DATBLYGU TIR GLAS

Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amglycheddol a Gwledig
Canolfan Datblygu Tir Glas, Gogerddan
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EB
Ffôn: (01970) 823000/Ffacs: (01970) 828357
E-bost:hym@aber.ac.uk

Institute of Biological, Environmental & Rural Sciences
Grassland Development Centre, Gogerddan
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EB
Tel: (01970) 823000/Fax: (01970) 828357
Email: hym@aber.ac.uk

211.01 GWNDWNNYDD GLASWELLT-MEILLION MEWN CYLCHDRO

Mae ffermwyr organig yn defnyddio cylchdro cnydau: i feithrin ffrwythlonder y pridd a gweithgarwch biolegol; cynyddu sylwedd organig y pridd; rheoli chwyn; atal clefydau; cynyddu bio-amrywiaeth y fferm; hyrwyddo iechyd anifeiliaid a chnydau. Ar y fferm laswellt, defnyddir 'cylchdro' pori a chadwraeth i hyrwyddo cyflwr y glaswellt, iechyd anifeiliaid a chydbwysedd maetholion.

CYNLLUNIAU CYLCHDROI

Nid oes cynllun penodol ar gyfer cylchdroi

Enghreifftiau

Pedwar cwrs Norfolk:
Gwreiddgnwd➔haidd➔codlysiau➔gwenith

Neu fersiwn chwe chwrs:
Gwreiddgnwd➔haidd➔codlysiau➔tatws➔ gwenith➔ceirch

Mae amrywiadau yn cynnwys cnwd porthi byr neu gnydau llysiau sy'n cael eu tyfu rhwng y gwndwnnydd codlysiau a'r grawn.

Efallai y bydd angen dau gylchdro gwahanol ar gyfer y mathau o gaeau ar y fferm.

Mae ardaloedd gwlypach y gorllewin yn fwy addas i gyfnod codlysiau hwy; gelwir hynny'n aml yn 'ffermio gwndwn'.

GWNDWNNYDD GLASWELLT MEILLION A CHODLYSIAU ERAILL

Rolau allweddol

Creu nitrogen.
Gwella isadeiledd y pridd.
Adeiladu sylwedd organig.
Rheoli chwyn a chlefydau.
Bwyd protein uchel.

'Cwrs' byr (1-2 flynedd)

Meillion coch gyda rhygwellt hybrid.
Meillion coch tymor byr gyda rhygwellt.
Pys/ffa/lucerne/bysedd y blaidd.

Cwrs canolig (3-5 mlynedd)

Meillion gwyn gyda rhygwellt.
Meillion coch a meillion gwyn gyda rhygwellt.

SUT I GYNLLUNIO

1. Penderfynu ai da byw neu gnydio yw'r flaenoriaeth, yna cydbwyso'r ddau yn y system.
2. Adnabod y cyfyngiadau gan gynnwys cynllun ac isadeiledd y fferm; ffensio, llwybrau, dŵr a pha mor agos ydyw at yr adeiladau.
3. Asesu:

Arwynebedd tir: 'faint ellir ei aredig; faint o gaeau, faint sydd yn AAP,
Math(au) o bridd: trwm neu ysgafn, ffrwythlonder
Cnydio: pa gnydau ellwch chi eu tyfu, beth yw eu hanghenion, cynhyrchiant, ansawdd a gwerth.
Glaswelltir: arwyneb gwndwnnydd parhaol neu hir dymor, gwndwnnydd byr neu ganolig y gellir eu cynnwys yn y cylchdro, pa stoc y gellir ei gynnal.
Da byw: cnwd porthi gaeaf, pori yn yr haf, ac anghenion dwysfwyd. Cymhareb gwartheg eidion i ddefaid.
Gwrtaith/slyri: ansawdd a swmp.
Llafur tymhorol, peiriannau/contractwyr: gofynion ar gyfer trin y tir a chynaeafu.
Marchnadoedd: ar gyfer cnydau gwerthu neu rawn/hadau dros ben.
Cymorthdaliadau: AAP/Tir Gofal/OFS.

DEFNYDDIO'R GWNDWNNYDD – CYFYNGIADAU A CHYFLEOEDD

Pori

- Rheolwch yn ôl canllawiau uchder glaswellt i sicrhau'r cynnyrch mwyaf.
- Sefydlwch system lân neu 'ddiogel' ar gyfer da byw sy'n agored i ddioddef.
- Peidiwch â phori mamogiaid ar feillion coch am chwe wythnos cyn ac ar ôl troi'r hwrdd.

Gwair/silwair

- Dewiswch ddyddiad cynaeafu yn ôl anghenion ansawdd a maint.
- Mae'r dail yn tueddu dryllio mewn meillion coch a gwair lucerne. Ystyriwch silwair yn lle hynny.

Silwair tir âr/cnwd cyfan

- Cnwd porthi blasus sy'n sicrhau bod meintiau da yn cael eu bwyta.
- Cnwd gorchudd defnyddiol ar gyfer gwndwn sydd wedi'i danhau. Torrwch pan yw fel toes llaethog i sicrhau'r cynhyrchiant a'r ansawdd gorau, neu'n gynharach os yw'r cnwd yn gorwedd, neu i amddiffyn y gwndwn sydd wedi'i danhau.

Gwrtaith gwyrdd

- Torrwch a'i daenu, neu ei aredig i mewn cyn y cnwd 'gwerthu'.

RHEOLAU CYLCHDROADAU ORGANIG

- Cnydau sy'n gwreiddio'n ddwfn i ddilyn rhai isel.
- Cnydau sydd ag angen nitrogen i ddilyn creu nitrogen (e.e. tyfwch gnydau grawn ar ôl gwndwnnydd meillion).
- Dylai cnydau sy'n sefydlu'n araf ddilyn cnydau sy'n atal chwyn.
- Defnyddiwch gyfnodau priodol rhwng cnydau tebyg (e.e.> pum mlynedd rhwng cnydau meillion coch).
- Cydbwyswch gnydau gwerthu a chnydau porthi (e.e. ddim mwy na 50% o gnydau grawn, lleiafswm o 20% gwndwnnydd codlysiau).
- Cynhaliwch orchudd pridd pan fydd modd, gan ddefnyddio cnydau byr, gwrtaith gwyrdd neu danhau
- Tyfwch gnydau a heuir yn yr hydref a'r gwanwyn bob yn ail.
- Defnyddiwch fathau a *chymysgeddau* gwydn pan fydd modd.

GWNDWNNYDD GLASWELLT MEILLION – CYMYSGEDDAU TYMOR BYR

Gwndwn meillion coch tymor byr

Rhywogaeth	kg / erw
Rhygwellt hybrid (tet.)	5
Rhygwellt parhaol canolradd	4
Meillion coch	3
Cyfanswm	13

- Yn addas i'w ensilio ac ar gyfer pori adlodd gan wartheg neu ŵyn.
- Gellir ei ddefnyddio ar gyfer torri a thaenu.
- Cynhyrchiant 11-13t DM/ha, cynnal ~ 1.6-1.8 LU/ha.

Gwndwn meillion gwyn tymor byr

Rhywogaeth	kg / erw
Rhygwellt hybrid (tet.)	3
Rhygwellt parhaol canolradd	4
Rhygwellt parhaol canolradd (tet)	3
Rhygwellt Parhaol Hwyr	2
Meillion gwyn	1.5
Cyfanswm	13.5

- Yn addas i'w bori gan bob math o dda byw, ensilio a gwair.
- Mae'n dda yn lle gwndwn meillion coch os oes angen mynd yn ôl at wndwn tymor byr cyn 5 mlynedd.
- Rhoi 9-11t DM/ha, cynnal ~ 1.5 LU/ha.

Gall cyfradd hadau'r cymysgeddau hyn gael ei:

- lleihau o 2kg/erw o danhau,
- amrywio i gael amrywiaeth o ddewis

GWNDWNNYDD GLASWELLT MEILLION – CYMYSGEDDAU TYMOR CANOLIG

Dewiswch fathau glaswellt sy'n rhoi gorchudd daear da a chyfradd parhad uchel.

Gwndwn meillion gwyn tymor canolig

Rhywogaeth	kg / erw
Rhygwellt hybrid (tet.)	1
Rhygwellt parhaol canolradd	4
Rhygwellt parhaol canolradd (tet.)	3
Rhygwellt hwyr	3
Meillion gwyn (Perlysiau*)	1.5 (0.75)
Cyfanswm	13

- Yn addas i'w bori gan bob math o stoc ac ar gyfer gwneud gwair neu silwair.
- Dewiswch feillion gwyn dail bychan neu addasadwy i'w bori'n galed gan ddefaid.
- Cynhyrchiant 9 -11tDM/ha, cynnal ~1.4LU/ha.

*Gellir cynnwys perlysiau; maent yn ddefnyddiol ond yn ddrud, heb fod yn barhaol.

Gwndwn meillion coch a gwyn tymor canolig

Rhywogaeth	kg / erw
Rhygwellt hybrid (tet)	3
Rhygwellt parhaol canolradd	4
Rhygwellt parhaol canolradd (tet.)	3
Meillion coch	2
Meillion gwyn	1
Cyfanswm	13

- Mae'n cyfuno cynhyrchiant uchel ac ansawdd meillion coch (sy'n tyfu gryfaf yn y 2 neu 3 blynedd cyntaf) gyda pharhad gwndwn meillion gwyn sy'n tyfu gryfaf yn y 4-7^{fed} blwyddyn.

GWYBODAETH BELLACH

Gwefan: http://www.grassdevcentre.co.uk